Llafuriodd y Parchedig Rhys Jones yn galed a gwelwyd ffrwyth ei ymdrechion a'i ffyddlondeb yn y rhan hon o'r Winllan. Bu yn yr ofalaeth am ddeugain mlynedd. Gwyddai pawb a ddaeth i gysylltiad ag ef am ei onestrwydd a'i ddyfalbarhad. Roedd yn grefyddwr arbennig. Poenai ei galon gyfiawn am fedd-dod ei oes, ac am ei fod mor ddidwyll ei hun, gofidiai lawer am anwiredd ei wlad. Tueddai i edrych ar yr ochr dywyll bob amser, gan gymryd dirywiad yn ofid calon iddo ef yn bersonol. Gweddïai'n ddefosiynol, yn llawn argyhoeddiad. Gellid synhwyro ei fod yn treiddio'n uniongyrchol at Dduw. Llais cryglyd a thoredig oedd ganddo, ond pan fyddai'n cynhesu gan ddiffuantrwydd a phenderfyniad, byddai'n bur effeithiol ar adegau.

Ym 1858, oherwydd henaint a llesgedd, rhoddodd ei ofalaeth i fyny. Symudodd i ardal Llanymddyfri. Claddwyd Elizabeth, ei briod yn drigain a thair mlwydd oed, yng Nghrug-y-bar ym mis Medi, 1829, sef un mlynedd ar ddeg wedi iddo gymryd gofal yr eglwysi. Hunodd ef ar Ebrill 3ydd, 1862 cyn cyrraedd ei bedwar ugain oed, ac fe'i claddwyd ym Mhentretygwyn. Dichon nad oedd y cyfleusterau yn briodol ar gyfer claddu ymhell – oes y cerdded ydoedd. Casglwyd 6s. 9½c. yn Esgairdawe tuag at ei garreg fedd.

**Henry Jones**

Yn Ffynnon Tudful, ger Merthyr y ganed Henry Jones ar Fai 6ed, 1834, ac fe'i bedyddiwyd gan y Parchedig Methuselah Jones. Michael a Jane oedd ei rieni a derbyniwyd ef yn aelod yn Saron, Troed-y-rhiw pan oedd yn bedair ar ddeg mlwydd oed. Yn anffodus, collodd ei dad pan oedd yn ifanc iawn, ond cafodd fam dda i'w gynorthwyo ymhob modd. Dysgodd hi ef i ddarllen Cymraeg yn gynnar gan roddi pob cymorth iddo hefyd i fod yn hyddysg yng ngwybodaeth yr Ysgrythur. Ychydig o fanteision addysg a geid yn yr ardal ond gwnaeth ef yn fawr ohonynt yn yr ysgol ddyddiol. Wedi dechrau yn y lofa, mynychai ysgol nos yn gyson. Roedd ganddo duedd grefyddol er yn ifanc, a dechreuodd bregethu ym 1852 pan oedd yn ddeunaw oed.

Edrychai pethau'n bur dywyll arno, ond cafodd gymorth ei frawd, John. Yn ystod y cyfnod hwn, symudodd ei fam a'r teulu i Rydfelen, gan ymaelodi yn Ebenezer, Glantâf, lle y gweinidogaethai'r Parchedig D. Stephens. Cedwid ysgol ym

Mhont-y-pridd gan y Parchedig H. Oliver, B.A. Rhoddai addysg i'r rhai hynny oedd â'u bryd ar y weinidogaeth. Yno yr aeth Henry Jones ac elwodd yn fawr ar gyfarwyddyd ei athro medrus. Ym 1855, derbyniwyd ef i Athrofa'r Bala, ac oddi yno aeth i Goleg Aberhonddu ym 1856. Bu'n fawr ei barch gan ei athrawon a'i gydfyfyrwyr. Wedi cwblhau cwrs o dair blynedd yno, derbyniodd alwad o Eglwysi Esgairdawe a Ffaldybrenin, yn olynydd i'r Parchedig Rhys Jones. Profodd ei hun yn olynydd teilwng iddo yn ôl yr hanes. Cafodd ei fam y fraint o weld ei mab yn dilyn ei chyfarwyddiadau ac yn cael ei dderbyn i'r weinidogaeth. Urddwyd ef yn Ffaldybrenin ar Orffennaf 19eg a'r 20fed, 1859:

> Ar yr achlysur pregethwyd ar Natur Eglwys gan Mr. W. Evans, Aberaeron; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Thomas, Bwlchnewydd; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Stephens, Brychgoed; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Roberts, Athraw Clasurol Athrofa Aberhonddu: ac i'r eglwys gan Mr. D. Stephens, Glantaf.[20]

Mae'n debyg, yn ôl tystiolaeth, fod torf o weinidogion a myfyrwyr yn bresennol.

Daeth Henry Jones yma ar adeg ffafriol yn hanes crefydd. Roedd dylanwad Diwygiad dechrau 1859 yn aros yn y tir, a thrwy hynny, ychwanegwyd llawer at nifer yr aelodau. Deallwn fod degau'n cael eu derbyn ambell Saboth. Ond, gwaetha'r modd, isel oedd y gydnabyddiaeth i bregethwyr y Gair. Telid swllt i fyfyrwyr a hanner coron i weinidog. Yn y flwyddyn 1861, mae'n debyg bod yr eglwys yn nyled y trysorydd o 4s. 2c., ac yn y flwyddyn ganlynol, symudodd ef i Ffaldybrenin. Dewiswyd trysorydd newydd ond ni wyddom pa fodd yr etholwyd ef.

Dyma rai cofnodion ariannol sy'n rhoi syniad i ni am y sefyllfa:

| | | £ s. d. |
|---|---|---|
| 1861. | Towards Association | 10-0 |
| | To D.W. Morgan, Bryndifyr, for Bier (elor) | 14-0 |
| | To T. Thomas, Maesteile, for cups + plates | 7-0 |
| 1862. | To D.W. Morgan, Bryndifyr, for work | 1-6 |
| | Collection for Headstone to the Rev. Rees Jones | 6-9½ |
| | To T.M. Prydderch, deputation to London | 2-0 |
| 1867. | For debt on Chapel | 2-11-0 |
| 1870. | To assist weak Churches | 12-0 |
| 1873. | For the solemnation of Marriage | 3-0-0 |
| | For repairs | 3-16-0 |
| 1874. | Load of coal for Chapel | 1-5-6 |

| | | |
|---|---|---|
| 1875. | For two new seats | 1-15-0 |
| | To the Rev. Henry Jones | 5-0-0 |
| 1876. | To University College Aberystwyth | 1-11-11 |
| | To support the little children of the factories | 1-0-0[21] |

Tybir mai mudiad a ddaeth yn adnabyddus, yn ddiweddarch, fel 'The Shaftsbury Ragged School' oedd hwn. Dengys yr haelioni ddylanwad gweinidog ifanc, yn ogystal â'r deffroad meddyliol.

Ceir y cofnod canlynol sy'n adlewyrchu sefyllfa'r capel:

| | | |
|---|---|---|
| Collected by W. Morgan for repairing Chapel | | £15-19-0 |
| Collected by T. Lewis | | 15-2-6 |
| | Total | 31-1-6 |
| | Paid | 21-18-6 |
| | In Hand | 9-3-0[22] |

Sylwer mai diaconiaid oedd yn gyfrifol am fynd o gwmpas i gasglu a chanfyddwn elfen o gystadleuaeth iach yn y cwbl.

Diddorol yw nodi'r lleoedd a 'gadwai'r mis' ym 1874:

Tanyffordd + Pantybryn; Llundain; Maesygwiail Fach; Esgerowen; Penllain + Arddlas; Gwarcoed + Pyllau; Newgate; Rhydfallen Fach + Alltfydir; Cwmtrebeddau; Pannaugleision; Maesygwiail Fawr; Caemawr; Maesteile; Bryneithin; Rhydlydan; Blaencwm; Cwmdawe; Esgerdawe; Maesyrhenarth.[23]

Os rhennid sedd yn y capel, rhennid y mis hefyd. Roedd y diddordeb mewn 'cadw'r mis' yn fawr yn y blynyddoedd cynnar. Byddid yn ei gadw yn y Llofft Fach yn y ganrif ddiwethaf a mawr oedd y paratoi ar ei gyfer. Cyfrifoldeb y sawl oedd yn gyfrifol am 'y mis' oedd gofalu am dybaco a diod gadarn i'r gweinidog. Aeth y rheiny i blith y pethau a fu. Dymuniad rhai oedd 'cadw'r mis' gartre. Mae nifer helaeth o'r lleoedd hynny wedi diflannu'n llwyr, – enwau megis Llety'r Wennol, Pantyfedwen, Rhiwdreinog, Eithinduon, Felingwm a Chwmrewig.

Cymerai'r brodorion ddiddordeb yn y cyffro gwleidyddol ym 1868. Bu'r Parchedig Henry Jones yn flaenllaw yn y frwydr hon. Cafodd ei 'fedydd tân' yn yr etholiad honno, pan dosturiai wrth ei aelodau a drowyd allan o'u ffermydd gan eu perchnogion. Gadawodd yr ormes hon ei dylanwad yn drwm ar y



*Y Parchedig Henry Jones*

trigolion. O ganlyniad, mynychent y 'moddion' yn gyson oherwydd mai dyma unig ffynhonnell eu diddanwch a'u hysbrydoliaeth. Cyfnod gwych i bregethu ynddo oedd cyfnod y cyni gwirioneddol hwn. Bu Henry Jones yn ymdrechgar o blaid addysg yn y cylch hefyd, gan ymgymryd â swydd ysgrifennydd i'r Ysgol Frytanaidd a gynhelid yn y Llofft Fach yn Ffaldybrenin am ddeunaw mlynedd. Yna, sefydlwyd Ysgol Fwrdd a bu'n aelod o'r pwyllgor am bymtheg mlynedd. Gwasanaethodd fel is-gadeirydd a chadeirydd.

> Yn y 60's a'r 70's yr oedd Llyfrgell werthfawr yn yr hen Ysgoldy ag ynddi rai o lyfrau Cymraeg gorau'r cyfnod.
> Cymerai y diweddar Barch. Henry Jones ddiddordeb mawr yn yr hen Fyfyrgell, a bu yn arweinydd diogel i ferched a bechgyn y plwy' ar hyd ei "ddeugain mlynedd hyn".[24]

Gweithiodd yn galed hefyd i glirio'r ddyled pan ailadeiladwyd a helaethu Capel Ffaldybrenin fel y mae heddiw.

Roedd Mr. Jones wedi cyrraedd deugain a chwech mlwydd oed pan ymunodd mewn priodas â Miss Rachel Jones, merch hynaf y Parchedig Thomas Jones, Parc-y-rhos, a hynny ym 1880. Fel ymhob achlysur, dangosodd ei ddoethineb yma eto a chafodd yn ei briod, gymorth ac ymgeledd dihafal.

Ysywaeth, oherwydd afiechyd, gorfu iddo roi'r gorau i'w ofalaeth ym 1899, ac ymhen ugain mlynedd wedi iddo briodi, hunodd ar Ionawr 12fed, 1901, yn drigain a chwech mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Ffaldybrenin. 'Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig'. Dyna'r geiriau a welir ar ei garreg fedd. Yn ogystal, ym 1912, dadorchuddiwyd maen coffa iddo yng Nghapel Ffaldybrenin, gan ei weddw, Rachel Jones. Priodol hefyd yw cynnwys dau englyn i'w goffáu:

Y PARCH. HENRY JONES
1834 – 1901

PREGETHWR a chenadwri – i'w oes,
Urddasol ei deithi:
O'r Ffydd, efrydydd o fri,
A'i fanwl i'w sylfeini.

Deheulaw i'r duwiolion, – a chadarn
Warcheidwad ar Seion:
Aruchel ei ymdrechion
I leshau eglwysi Iôn.

DEWI MEDI[25]

Fel Rhys Jones, bu Henry Jones yn gweinidogaethu yn y ddwy eglwys am ddeugain mlynedd. Llafuriodd yn gydwybodol a dyfal a chofir amdano fel pregethwr da, bugail ffyddlon a chymeriad diffuant a glân. Ymgartrefodd Mrs. Jones, ei weddw, yn Ffaldybrenin hyd ddiwedd ei hoes. Dangosai sêl arbennig tuag at weithgareddau'r capel a ffyddlondeb i'r holl gyfarfodydd, gan gynnwys yr Ysgol Sul. Hunodd yn ystod yr Haf, 1935 wedi cyrraedd pedwar ugain a phedair mlwydd oed a chyflawni 'diwrnod da o waith'.

[1]*Hanes Eglwys Crugybar,* Ben Davies, 1927, t.10.
[2]*The Story of Carmarthenshire,* Vol. 2, A.G. Prys Jones, 1972, t.225.
[3]*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru,* Thomas Rees a John Thomas, 1873, t.555.
[4]'Ledger' John Davies, Clocswr, Llambed, Adran Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[5]Cofrestr yr Eglwys, 1765 – 1857.

[6]*Bywgraffiadur Cymreig,* hyd 1940.
[7]Trwy law Emrys Williams, Aberystwyth.
[8]Ibid.
[9]Cofrestr yr Eglwys, 1765 – 1857.
[10]*Carmarthenshire Antiquarian Society,* Vol. 1, tt.89-90.
[11]Cofrestr o Chwef. 12fed, 1765, PRO Llundain, drwy law Richard Gresty, Fleet, Hampshire.
[12]Ibid.
[13]*Carmarthenshire Antiquarian Society,* Vol. 1, tt.89-90.
[14]Cofrestr yr Eglwys, 1765 – 1857.
[15]'Hanes Ymneilltuaeth', W. Davies, Ffrwdyfâl, *Y Diwygiwr,* 1848, t.343.
[16]Cofrestr yr Eglwys, 1765 – 1857.
[17]Trwy law Emrys Williams, Aberystwyth.
[18]Cofrestr yr Eglwys, 1765 – 1857.
[19]'Hanes Ymneilltuaeth', W. Davies, Ffrwdyfâl, *Y Diwygiwr,* 1848.
[20]*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru,* Thomas Rees a John Thomas, 1873, t.556.
[21]Enwau'r Aelodau a Chyfrifon, 1827 – 78, Adran Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[22]Ibid.
[23]Ibid.
[24]Cerddi Ysgol Llanycrwys ynghyd â Hanes Plwyf Llanycrwys, Dan Jenkins, 1934, t.123.
[25]Ibid., t.144.

# II

# PARHAU I GYHOEDDI'R GWIRIONEDD

**Gweinidogion y Ganrif Hon**

| | |
|---|---|
| James Jones | 1900 – 1907 |
| D. Myddfai Thomas | 1907 – 1912 |
| David Williams | 1913 – 1928 |
| Giraldus Jones | 1928 – 1978 |
| Guto Prys ap Gwynfor | 1984 – 1989 |
| Hywel T. Jones | 1990 – |

**James Jones**

Brodor o Rymni oedd James Jones. Aeth i Goleg Caerfyrddin, ac ym 1900, cafodd alwad i fod yn weinidog yr ofalaeth hon. Urddwyd ef yn Ffaldybrenin ar y cyntaf o Awst, 1900. Dyma gofnodion am y Cyfarfodydd Ordeinio:

> In remembrance that on Ordination will be held at Esgairdawe on Tuesday, July 31st, 1900, also at Ffaldybrenin, August 1st, for to settle a regular Minister at both places.
>
> Rhestr o'r testunau –

**Esgairdawe**

| | |
|---|---|
| July 31st 1900. At 2 o'clock: | Mr. Williams, Rhymney, Ioan 3 – 3, Prof. Jones, Carmarthen, Luc 16 – last verse |
| At 6 o'clock: | Rees, Abergorlech, 2 Cor. 5 – 17 Williams, Fflint 1 Thes. 5 – 12 + 13. |

**Ffaldybrenin**

| | |
|---|---|
| Aug. 1st 1900. At 10 o'clock: | Prof. Jones, Carmarthen, Eph. 2 – last verse<br>Mr. Williams, Rhymney, 1 Tim. 3 – charge gweinidog |
| At 2 o'clock: | Daniel Evans, Cwmafon. 1 Cor. 4 – 1 charge eglwys<br>William Thomas. Ezec. 33 – 30 + 32 |

At 6 o'clock: Peregrine, Rhymney, 2 Cor. 5 – 14
Parry, Llanbadarn, 2 Sam. 9 – 1
Ac o hyn allan y mae Mr. Jones i fod yn cyflawni'r weinidogaeth.[1]

Dyma ddechrau canrif a phennod newydd mewn mwy nag un ystyr. Ie, gweinidogaeth newydd ac iaith newydd hefyd yn y Gofrestr, – cofnodi'r digwyddiadau yn Gymraeg!

Gŵr eofn a chawraidd ei fuchedd oedd James Jones. Cofiwn mai gwin meddwol a ddefnyddid yng ngwasanaeth y Cymun cyn ei amser ef. Roedd hyn yn groes i'w ewyllys gan ei fod yn ddirwestwr mawr.

> Gwyddai sut oedd sefyll ar ei sodlau dros egwyddorion mawr y Deyrnas. Bu brwydyr go chwyrn yma parthed newid y gwin... Mynnodd gael pleidlais yr aelodau, a llwyddodd i'w newid er gwell.[2]

Mynnodd hefyd greu'r arferiad fod pob aelod yn cael hawl i bleidleisio ar bob mater pwysig. Yr oedd yn gam i'r cyfeiriad iawn, fel y sylweddolwyd yn ddiweddarach. Dyna ddechrau cyfnod gwerinol a chyfle i bob aelod fynegi ei lais a'i farn. Cyn hyn, 'roedd pob penderfyniad yn nwylo'r gweinidog a'r diaconiaid, a'r gweinidog, wrth gwrs, oedd yn dewis ei ddiaconiaid. Yn y cyfnod hwnnw, ceid enwau cant o aelodau ar Lyfrau'r Eglwys. Roedd trigain yn mynychu'r Ysgol Sul, gydag wyth o athrawon.

Yn y dyddiau cynnar, câi'r gweinidog y swm a gesglid yn fisol fel cyflog:

**Ministry Collection, 1905**

| | |
|---|---|
| Jan. 8th. | £2-11-3 |
| Feb. 5th. | 2-15-5 |
| Mar. 5th. | 2-15-4 |
| Apr. 2nd. | 2-10-3 |
| Apr. 30th. | 2- 5-3 |
| May 28th. | 2-19-3 |
| June 25th. | 2-12-6 |
| July 23rd. | 2- 4-0 |
| Aug. 20th. | 2-16-6 |
| Sept. 17th. | 2-16-6 |
| Oct. 15th. | 2-10-0 |
| Nov. 12th. | 2- 8-9 |
| Dec. 10th. | 3- 5-0 |
| | £34-10-0[3] |

Agorwyd capel bach y Wern, ryw ddwy filltir o Esgairdawe, yn y flwyddyn 1901. Arferai James Jones bregethu yno yn yr hwyr, bron yn fisol. Byddai'n annerch y plant a hwythau'n credu popeth a ddywedai, yn ôl y Parchedig E. Tawe Jones, un o blant Esgairdawe.

Gweithiodd y bugail hwn yn ddyfal yn y maes am saith mlynedd. Ef a fu'n gyfrifol am sefydlu'r 'Band of Hope' yn y fro. O ganlyniad i hynny daeth y Gymanfa Ddirwestol i fodolaeth a bu bri arni am flynyddoedd. Ni chafodd hwn gefnogaeth ei aelodau bob amser, ond nid gŵr i ddigalonni'n hawdd ydoedd. Ymbriododd ag un o aelodau Eglwys Ffaldybrenin ac efallai i hyn fod yn un rheswm am ei benderfyniad i ymadael â'r ofalaeth mor fuan. Symudodd i Elim, Cwm-dâr, ond ni fu'n weinidog yn hir wedi hyn er iddo lafurio'n ddyfal dros waith yr Efengyl.

O hynny allan, bu pobl Esgairdawe yn cyfeirio ato gyda pharch ac edmygedd, fel Jones, Cwm-dâr. Roedd yn gymeriad anturus a hoffai weld cyfnewidiadau'n digwydd o'i gwmpas. Cofia rhai yn y fro, hyd heddiw, amdano'n annog ei aelodau i symud dodrefn yn eu cartrefi'n gyson er mwyn newid yr amgylchedd. Diau fod hyn yn rhoi ysbrydoliaeth i'r meddwl dynol ac yn fodd i berson gyflawni ei weithgareddau gyda mwy o frwdfrydedd a pherffeithrwydd.

Bu'r Parchedig James Jones farw ar Hydref 19eg, 1936 yn 68 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Ffaldybrenin. Ar ei garreg fedd gwelir yr adnod, 'Efe oedd gannwyll yn llosgi ac yn goleuo'. Hunodd ei ferch ar Chwefror 19eg, 1954 yn ddeugain a thair mlwydd oed, ond cyrhaeddodd ei briod, Ellen ei phedwar ugain a thair. Bu farw ym 1959. Claddwyd y ddwy yn Ffaldybrenin.

**D. Myddfai Thomas**

Fel y gellir casglu oddi wrth ei enw, un o blant Myddfai, ger Llanymddyfri oedd D. Myddfai Thomas. Am rai blynyddoedd, bu'n gweithio ar ffermydd yr ardal ond gyda threigl amser, sylweddolodd nad dyma ei wir alwedigaeth. Cafodd alwad o gyfeiriad arall ac ymatebodd iddi. Penderfynodd fynd i Ysgol y Gwynfryn, Rhydaman i baratoi ei hun ar gyfer y weinidogaeth. Ym 1900, aeth oddi yno i Goleg Caerfyrddin.

Fe'i ordeiniwyd ym Mhenarth ym 1903, ond gwaetha'r modd,

collodd ei iechyd a gorfu iddo adael y weinidogaeth. Daeth yn ôl i'w fro enedigol, gan obeithio cael adferiad. Drwy drugaredd, gwireddwyd ei obeithion, dros dro, beth bynnag. Derbyniodd alwad o'r eglwysi hyn a sefydlwyd ef yn Ffaldybrenin ar Hydref 28ain, 1907.

Roedd yn gymeriad unigryw. Gwyddai'r ffordd i gael y gorau allan o'i aelodau. Prawf o hyn oedd canlyniad y dasg enfawr o adnewyddu Capel Esgairdawe i'w ffurf bresennol.

> Dywedir mai dyma'r 'tactician' pennaf a fu'n weinidog yma oddi ar y dechrau. Gwyddai'r ffordd yn rhwydd i galon a phoced yr aelodau ... Ni fu casglwr tebyg iddo yn y cylchoedd. Casglodd dros 400 o bunnoedd a thalwyd am yr atgyweiriadau cyn dydd ei agoriad.[4]

Yn ôl eiriau ef ei hun, 'Yr oedd gan y bobl galon i weithio'. Mae'r capel yn goffadwriaeth i'w enw hyd y dydd heddiw. (Ceir hanes yr adnewyddu a'r agoriad o dan bennawd arall).

> Llwyddodd Mr. Thomas hefyd i newid y drefn weinidogaethol, er i hynny olygu traul ychwanegol i'r eglwysi. Byddai'n pregethu yma ac yn Ffaldybrenin bob pythefnos. Drwy hyn, cafodd gyfle i fynychu'r Ysgolion Sul.[5]

Dyma'r hyn a dalwyd i bregethwyr cynorthwyol ym 1911:

| | | £-s-d |
|---|---|---|
| Jan. 8th. | Derwenydd Morgan | 8-6 |
| Jan 29th. | Thomas, Nantyfeinien, Rev. pd. | |
| Feb. 5th. | E. Jones, Maesyrhenarth | 4-0 |
| Feb. 26th. | Edwards, Lampeter, Rev. pd. | |
| Mar. 5th. | Thomas, Nantyfeinen | 4-0 |
| Mar. 5th. Night | Tom Ehedydd Jones, Not pd. | |
| Mar. 19th. | E.R. Jones, Holyhead, Bangor | 5-0 |
| Mar. 26th. | Edwards, Lampeter Rev. pd. | |
| Apr. 2nd. | Tom Williams, Pencader School | 6-0 |
| Apr. 30th. | Jones, Goitre | 8-0 |
| May 21st. | Gwynfryn Student | |
| May 24th. | Thomas, Llangadog | 1-5-0 |
| May 24th. | Eiddig Jones | 1-5-0 |
| May 28th. | No one | |
| June 18th. | Derwenydd Morgan | 8-6 |
| June 25th. | Johnson | 8-0 |
| June 27th. | D.J. Williams, Brecon | 3-0 |
| July 9th. | Edwards, Lampeter, holiday | 8-6 |
| July 16th. | James, Rhydybont, Rev. pd. | |
| July 23rd. | S.A. Davies, Llangeitho | 8-0 |

| | | |
|---|---|---|
| Aug. 3rd. | Carm. Student, Emanuel | 3-0 |
| Aug. 20th. | Rees, Aberystwyth | 7-6 |
| Aug. 27th. | James Jones, Cwmdâr | 8-6 |
| Sept. 3rd. | Edwards, Lampeter, Rev. pd. | |
| Sept. 10th. | T. Williams, Brynllo, Rev. pd. | 5-0 |
| Sept 17th. | Jones, Nantyfeinen | 8-0 |
| Sept 24th. | Rev. Thomas, Salem, Rev. pd. | |
| Oct. 15th. | Evans, Maesllan | 8-0 |
| Nov. 12th. | D. Jones, Pencader | 8-0 |
| Dec. 10th. | Mr. Davies, Clynolau | 8-0 |
| Dec. 31st. | Derwenydd Morgan, Rev. pd. | |
| | | £8-17-6[6] |

Ber fu hoedl y gweinidog hwn yn yr ofalaeth a newidiwyd yn ôl i'r hen drefn ar ei ymadawiad. Felly, ni chafodd ei olynwyr y fraint o fod yn bresennol yn yr Ysgol Sul. Cynhelid oedfa'r bore yn un o'r capeli ac oedfaon yn y prynhawn a'r hwyr yn y llall, a hynny bob yn ail Sul.

Ym 1912, cafodd Myddfai alwad i Antioch a Phenygroes, Penfro. Rhybuddiodd yr aelodau am hynny ar Hydref 6ed, 1912 ac aethant ati i gasglu er mwyn cyflwyno rhodd iddo. Cynhaliwyd Cwrdd Ymadawol ar Dachwedd 12fed. Dyma benillion a gyfansoddwyd ar gyfer yr achlysur gan un o'r aelodau, sef Thomas Thomas, Maesteile.

Mewn hiraeth dwys a chalon brudd
Y daethom yma'n gryno,
I roi ffarwel i'n cyfaill cu
Fu yma'n ffyddlon weithio.

Drwy ras di-baid a hedd di-lyth
Bu'n datrys pynciau Iesu,
Nes agor ffordd i'r caeth a'r rhydd
I gario'r groes a'i garu.

Fe gollodd ambell Sul, gwir yw,
Ond arall roddodd inni,
Er hynny 'gyd, gwnaeth les dros Dduw,
I Benfro 'r â a'i deulu.[7]

Dros Eglwys Esgairdawe
Cyflwynaf i chwi'n llon
Deimladau mwyaf gwresog
A 'Bookcase' newydd sbon.

Gwnewch fawr neu gwnewch beth fynnoch
  O'r rhoddion hyn i gyd;
Rhowch beth i dlodion Penfro
  I'w cynnal yn y byd.

Hir oes ag hir dangnefedd
  I chwi a'ch teulu llon,
I fyw mewn gwlad gyfoethog
  O ffrwythau'r ddaear hon.

Ac engyl nef a'ch gwylio
  I'ch cadw yn y gwaith,
Nes tynnu pawb at Iesu
  Am dragwyddoldeb maith.[8]

Dymuniad y gwerinwr selog hwn oedd datgan ei deimladau ar gân. Mae'n amlwg fod Eglwys Esgairdawe yn hiraethus o golli'r gweinidog hwn. Byddent wedi hoffi ei gadw am rai blynyddoedd yn ychwanegol o gofio iddo fod yn arweinydd ac yn gefn iddynt wrth adnewyddu'r capel ddwy flynedd cyn hynny. Roedd yn boblogaidd gan eglwysi'r cylch hefyd. Byddai'n gwasanaethu gyda phob enwad a chofir amdano, hyd heddiw, yn gwneud apêl o'r pulpudau hynny am gymorth i adnewyddu Capel Esgairdawe. Câi ei ymdrechion taer ymateb anrhydeddus.

Wedi treulio deuddeg mlynedd yn Antioch a Phenygroes, symudodd i Gibeon, San Clêr. Dim ond am bum mlynedd y bu yno, oherwydd bu farw ar Ebrill 8fed, 1929 ac yntau ond 53 mlwydd oed.

Er iddo gael adferiad iechyd, i ryw raddau, erbyn 1907, nid yn aml y gwelir rhywun a ddioddefodd gymaint ag ef ac eto'n parhau i gyflawni ei wasanaeth. Anaml hefyd y cyfarfyddir â pherson, yn ei sefyllfa ef, a ddatguddia gymaint o amynedd, hyder a sirioldeb. Roedd yn bregethwr grymus a gwresog, heb ofni cyhoeddi'r gwirionedd. Cymerai ddiddordeb mewn cyfansoddi hefyd. Cyhoeddodd farddoniaeth, dadleuon a holwyddoregau, yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifainc. O ystyried cyflwr ei iechyd, mae'n syndod iddo fedru canolbwyntio ar y cynhyrchion gwerthfawr hyn.

Aeth dros dri chwarter canrif heibio oddi ar ddydd ei ymadawiad ag Esgairdawe, ond erys yr atgofion amdano tra saif y Deml ar ochr y bryn.

**David Williams**

Un o blant Dyffryn Aman oedd David Williams. Ganed ef yng Ngelli Geidrym, Glanaman ac ymaelododd ym Methel, Garnant o dan weinidogaeth y Parchedig Towyn Jones. Yno y dechreuodd bregethu ym 1903, ac fel llawer pregethwr arall o'r fro, profodd yntau ei fod yn un o'r cynhyrchion gorau i'r weinidogaeth yng Nghymru.

Addysgwyd ef yn Ysgol y Sir, Llandeilo ac Ysgol Watcyn Wyn, Rhydaman. Bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Aberhonddu a Choleg y Brifysgol, Caerdydd, lle graddiodd. Cwblhaodd ei gwrs diwinyddol yn Aberhonddu yn y flwyddyn 1913, ac yn y flwyddyn honno, derbyniodd alwad i weinidogaethu yn Esgairdawe a Ffaldybrenin. Dyma gopi o'r alwad:

Eglwysi Annibynnol
Ffaldybrenin ac Esgairdawe
at
Mr. David Williams, B.A.
Coleg Aberhonddu

Annwyl Frawd,

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod, Gyda a Thros yr Eglwysi uchod yn rhoddi galwad i chwi i ddyfod i'n bugeilio fel gweinidog.

Gobeithio fod yr alwad o dan arweiniad yr ysbryd ac y bydd eich dyfodiad i'n plith yn Llwyddiant yr Achos ac achubiaeth eneidiau, er bendith i'n gilydd a'r cyfan er gogoniant i'r Duw goruchaf.

(Arwyddwyd gan ddiaconiaid Ffaldybrenin ac Esgairdawe ond ni chynhwysir eu henwau ar y copi sydd ar gael).

Rheolau – Rhwng y ddwy Eglwys a Mr. D. Williams, B.A.

1. Cyflog – Casgliadau misol.
2. Claddu a bedyddio aelodau yn ddidâl. Pe bai angladd ag yntau ar ei wyliau i ddod yn ôl i gladdu.
3. Gwyliau – Pedwar Sul y flwyddyn o Holidays.
4. Cyfnewid – Os yn newid Sul cael un yn ei le a'i dalu a llety. Trefn y gwasanaeth, bob yn ail Bore a prydnawn Tri mis o rybudd pan yn ymadael.

Thomas Davies,

Dyddiedig Mai 25 1913[9]

Ordeiniwyd David Williams yn Ffaldybrenin ddechrau Awst, 1913 ond cynhaliwyd cyfarfod yn Esgairdawe hefyd. Diddorol yw cofnodi rhai o'r costau'n ymwneud â'r achlysur:

| | **1913** | £-s-d |
|---|---|---|
| Aug. 2 | Lamb leg, 9lb. at 4½d. per lb. | 3-4 |
| | Charles Evans, Bread + Cake | 2-7-4 |

| | | |
|---|---|---|
| | J. Morgan, Beef + Pork, 19½lb. at 9½d. | 15-5 |
| | Mrs. Davies, 24lb. sugar 4/6, tea, 5/- | 9-6 |
| | Abel Thomas, 12lb. Butter at 11d. | 11-0 |
| | Rhandâl gweinidogion | 2-12-0 |
| Aug. 11 | Cludo yn y Motor Car | 5-6 |
| | T. Morgan, Posters + Stamps | 3-10 |
| | Mrs. Jones, Tybach | 2-0 |
| Aug. 13 | Miss Morgan, Cleaning School | 2-0 |
| | Mrs. Davies, Water boil | 2-0 |
| | | £7-13-11[10] |

Fel y gwelir, ni fu'r eglwysi'n hir cyn cael olynydd i'r Parchedig D. Myddfai Thomas, – cyfnod byr o naw mis. Bu nifer o bregethwyr ar brawf a diddorol yw sylwi ar enwau'r rhai a fu'n gwasanaethu ym 1913, ynghyd ag ambell sylw a wnaed am rai ohonynt. Er hynny, ni cheir unrhyw farn am David Williams, yr hwn a ddewiswyd i fod yn weinidog newydd. Mae'n amlwg iddo roi argraff dda ar yr aelodau oherwydd fe'i ordeiniwyd yn fuan wedi'i ymweliad cyntaf â'r eglwysi. Dyma'r rhestr:

| | **1913 Preachers** | £-s-d |
|---|---|---|
| Jan. 5 | Williams, Glanaman (Aberhonddu) | 8-6 |
| Jan. 12 | Bala Bangor | 12-0 |
| Jan. 19 | Rev. Davies, Seven Sisters | 10-0 |
| Jan. 26 | W.J. Rees, Treforus | 7-0 |
| Feb. 2 | Ellis Parry, Carmarthen (good) | 7-0 |
| Feb. 9 | Rev. Jones, Trimsaran (good) | 10-0 |
| Feb. 16 | Rev. Richards, Trawsfynydd | 10-0 |
| Feb. 23 | D.R. Phillips, Carmarthen | 7-0 |
| Mar. 2 | William Davies, Aberhonddu | 8-6 |
| Mar. 9 | Rowlands, Aberystwyth (good) | 7-0 |
| Mar. 16 | Rev. Hywell Treflesg | 10-0 |
| Mar. 23 | D. Francis Jayane, Carmarthen | 7-0 |
| Mar. 30 | Lloyd, Resolven (Bala), good | 8-6 |
| Apr. 7 | Rev. Howells, Ynysboeth | 10-0 |
| Apr. 13 | Rev. T.E. Jones, Efailisaf | 10-0 |
| Apr. 20 | Edwards, Aberhonddu (very good) | 8-6 |
| Apr. 27 | Ellis Parry, Carmarthen | 7-0 |
| May 4 | Williams, Aberhonddu | 8-6 |
| May 11 | Rev. Davies, Gwernogle | 10-0 |
| May 18 | D.M. Jones, Llanybyther | 7-0 |
| May 25 | Evans, Maesllan | 7-0 |
| June 1 | Gwag | |
| June 8 | Rev. Evans, Erwau | 10-0 |
| June 15 | Tom Ehedydd Jones | 7-0 |

| | | |
|---|---|---|
| June 22 | Derwenydd Morgan | 10-0 |
| June 29 | Jones, Goitre | 7-0 |
| July 6 | Rev. Jones, Cellan | 10-0 |
| July 13 | D. Williams, Gweinidog, Tro Cyntaf | |
| Aug. 3 | Jones, Cwmdar | 10-0 |
| | | £11-14-6[11] |

Yn y cyfnod hwnnw hefyd, câi'r gweinidog yr hyn a gesglid yn fisol fel cyflog. Dyma'r hyn a dalwyd i'r gweinidog newydd o Awst 13eg hyd Rhagfyr 21ain, 1913:

| | | £-s-d |
|---|---|---|
| Aug. 13, 1913 | Casgliad i Mr. Williams | 3-2-10 |
| Aug 31, 1913 | Casgliad i Mr. Williams | 3-3-1 |
| Sept. 28, 1913 | Casgliad i Mr. Williams | 2-19-9 |
| Oct. 26, 1913 | Casgliad i Mr. Williams | 3-4-8 |
| Nov. 23, 1913 | Casgliad i Mr. Williams | 3-10-6 |
| Dec. 21, 1913 | Casgliad i Mr. Williams | 4-19-9 |
| | | £21-0-7[12] |

Yn Ffaldybrenin y trigai pob gweinidog a deuai'r Parchedig David Williams i Esgairdawe naill ai ar gefn poni, mewn trap a phoni neu ar feic modur. Byddai'n eu rhoi yn y stabl ger Tŷ'r Capel yn ystod yr oedfa. Un tro, methodd â chychwyn y beic modur i fynd adre. Felly, dechreuodd rhai o'r gwŷr ifainc ei wthio a'r gweinidog ar ei gefn; y beic yn dechrau, yn tagu ac yn methu â symud. Ie, y gwthwyr yn mynnu cael tipyn o ddifyrrwch diniwed, drwy ei ddal yn ôl, a'r gweinidog tyner, mwynaidd yn dweud mor ostyngedig a gwirion, "Fe dreiwn ni 'to, bois"

Bu'n ffodus mewn cymar bywyd pan briododd ym 1923 â Miss May Jones, Troed-y-bryn, merch leol. Llawenydd mawr iddo oedd codi'r Parchedig D.E. Williams, gynt o Bontyberem i bregethu o dan ei weinidogaeth.

Pan oedd David Williams wedi cwblhau pymtheg mlynedd lwyddiannus yn yr ofalaeth, cynghorwyd ef gan ei feddyg, ym 1928, i roi'r gorau i'w orchwylion. Yn wir, dioddefodd lawer o afiechyd yn ystod y blynyddoedd hyn. Felly, gan fod tipyn o bellter rhwng yr eglwysi yn ogystal, 'roedd yn hawdd iddo ufuddhau i'r gorchymyn.

Aeth ef a'i briod i ymgartrefu yn Llambed cyn symud i Aberystwyth, lle treuliasant dymor byr. Bu'r Parchedig David Williams yn mynychu dosbarthiadau T. Gwynn Jones. Dychwelasant i Lambed, gan drigo yn Wenllys, Stryd Newydd. Gweinidog eglwys Soar ar y pryd oedd y Parchedig T. Eirug Davies. Cafodd y ddau'r fraint arbennig o gael bod o dan ei weinidogaeth. Mewn cyfnod o afiechyd, cafodd Eirug Davies, yntau, aelod a chyfaill cywir ym mherson David Williams.

Ym 1951, aeth y Parchedig a Mrs. D. Williams yn ôl eilwaith i Aberystwyth, ac yno yr hunodd ef ar Fedi 2ail, 1962 ac yntau'n ymyl ei bedwar ugain oed. Fe'i claddwyd ym mynwent newydd Soar, y tu allan i dref Llambed. Mae'n syndod iddo gyrraedd yr oed yma, ac yntau wedi gorfod gadael y weinidogaeth mor gynnar oherwydd afiechyd.

Meddai ar bersonoliaeth hynaws a dangosai barch tuag at gyd-ddyn. Hoffai gymdeithas ei gyfeillion a dangosodd deyrngarwch arbennig tuag at ei gydweinidogion. Datguddiai haelioni mawr at achosion teilwng. Bu'n gefnogol tu hwnt i Goleg Aberhonddu ac i'r Coleg Coffa yn Abertawe, yn ogystal â phob cronfa a berthynai i'r Enwad Annibynnol.

Cyhoeddodd lyfryn o dan y teitl *Llafur yng Ngheredigion.* Ynddo, dangosodd faint ei argyhoeddiadau, a bu cylchrediad y llyfryn yn eang. Cymerai ddiddordeb mewn llenyddiaeth a phrofodd yntau fod ganddo ddychymyg byw a dawn i'w fynegi. Ni phregethodd yn ystod ei flynyddoedd olaf, ond cofir amdano fel pregethwr eneiniedig ac ysgolhaig disglair.

Bu ei briod, May, yn ofalus iawn ohono, yn enwedig wedi iddo golli ei olygon ac yntau eisoes yn drwm ei glyw. Ar ôl ei farwolaeth, cefnogodd hithau bob mudiad a dderbyniodd ei gymorth ef.

**Giraldus Jones**

O Gwm Tawe y daeth Giraldus Jones. Ganed ef yn Ystalyfera ar Fedi 12fed, 1895. Ef oedd yr hynaf o bum plentyn talentog David Thomas Jones a'i briod, ac fe'i maged ar aelwyd fawr ei manteision. Bu'r fagwraeth a gafodd yn fodd i feithrin ynddo ddiddordeb mewn crefydd a diwylliant. Etholwyd ei dad yn ddiacon yn Eglwys Pant-teg ym 1901, ac yn yr eglwys honno, wrth draed y diweddar Barchedig Ben Davies y codwyd Giraldus Jones. Bu'n ffyddlon i'r gwasanaethau, gan

gynnwys yr Ysgol Sul, y Cwrdd Gweddi a'r 'Band of Hope'. Meddai ar ddawn gerddorol. Dysgodd ganu'r piano a'r fiola a bu'n aelod o gerddorfa'r capel.

Glöwr oedd ei dad, ac yn ei amser hamdden, ymddiddorai mewn llenyddiaeth ac adrodd. Bu'n hyfforddi llawer o adroddwyr, gan gynnwys Llaethferch. Daeth hon yn adroddreg enwog drwy'r wlad. Yn y cyfnod hwnnw, 'roedd perfformio dramâu yn boblogaidd iawn, ond nid yn aml y gwelid cwmni drama a gynhwysai aelodau un teulu yn unig. Dyna a ddigwyddodd yn hanes y teulu dawnus hwn. Bu Cwmni'r Aelwyd yn rhoi perfformiadau rhagorol, gan ddifyrru cynulleidfaoedd ledled Cwm Tawe.

Fel ei dad, bu Giraldus yn gweithio yn y lofa am flynyddoedd, gan fynychu 'ysgol nos' er mwyn ceisio diwyllio'i hun. Cafodd ei weinidog, y Parchedig Ben Davies, lawer o ddylanwad arno, a phan oedd yn ddeg ar hugain oed, penderfynodd nad yn y lofa yr oedd ei le, ond yn y pulpud. Golygai dipyn o anturiaeth a ffydd i ŵr priod a chanddo blentyn, fynd i Ysgol Myrddin, Caerfyrddin, ym 1925, er mwyn paratoi ar gyfer pasio arholiad i Goleg Coffa, Aberhonddu. Dyna a wnaeth, a bu yn Aberhonddu am dair blynedd.

Yn ystod ei flwyddyn ola' yn y Coleg, bu'n pregethu ar brawf yn Eglwysi Esgairdawe a Ffaldybrenin. Pan welwyd ef, y tro cyntaf hwnnw, yn dod ar y bws i gyfeiriad Pumsaint, tybiwyd mai bachgen ifanc, ugain oed ydoedd ac yntau dros ei ddeg ar hugain. Creodd argraff arbennig ar aelodau'r eglwysi a phenderfynwyd rhoi galwad iddo.

Cynhaliwyd pwyllgor yn Ffaldybrenin ddiwedd Medi, 1928. Trefnwyd y telerau, dyddiad y Cyfarfodydd Ordeinio a chartre'r gweinidog newydd a'i deulu – mewn rhan o Ros-y-bedw am rent o wyth punt y flwyddyn. Anfonwyd yr alwad, dyddiedig Medi 24ain, 1928, wedi'i harwyddo gan ddiaconiaid yr eglwysi, – tri dros Esgairdawe, sef Abel Thomas, John Morgan a Thomas Thomas, a thri ar ddeg dros Ffaldybrenin, – Thomas Morgan, John Davies, David Williams, John Evans, Benjamin Davies, John Morgan, Thomas Davies, Henry W. Evans, David Davies, Dan Davies, John Morgans, J. Davies a James Walters.

Yn ogystal, anfonodd ysgrifennydd Ffaldybrenin (Thomas Davies), lythyr, dyddiedig Hydref 1af, 1928, i Giraldus Jones ynglŷn â'r holl drefniadau. Dyma rai cymalau ohono:

Bod y Cyfarfodydd i gael eu hysbysu yn y Tyst yn y modd byraf, ac i Argraffu nifer o Bamphledau – tebyg i'r un ddangosasoch chwi . . . Ni ellir anfon i'r Tyst yr wythnos hon hefyd, gan nad ydym wedi derbyn dim yn swyddogol oddiwrthych, eich bod yn derbyn yr Alwad, er ein bod wedi cymeryd hynny yn ganiataol wrth bob siarad a fu rhyngom.
Hoffem hefyd gael y Parchg. Derwenydd Morgan Pencader (un o blant Esgerdawe yw ac un parod i roddi cynorthwy) i gymryd rhyw ran yn y Cyfarfodydd.
Anfonwch air yn ol eich bod yn atteb yr alwad bydd hyny yn swyddogol, mor fuan ag y byddoch yn medru gwneud, gan obeithio nad oes dim wedi codi yn y trefniadau i chwi newid eich meddwl, yr hyn a fyddai yn siom dirfawr i ni yma.[13]

Er mawr lawenydd i bawb, ni newidiodd Giraldus Jones ei feddwl. Bu'r holl drefniadau yn llwyddiant a daeth y dyddiau hirddisgwyliedig.

Ceir copi o glawr Taflen y Cyfarfodydd drosodd:

Wele hanes y ddwy oedfa yn Esgairdawe:

A'r Hydref yn bwrw ei ddillad gwaith i ffwrdd, nes melynu wyneb anian, a'r storm yn rhuo ymrhig y deri agorwyd y Gyfres Gyfarfodydd neillduol yma yn y fam Eglwys yn Esgairdawe am ddau o'r gloch o dan arweiniad y Parchg. D. Williams, B.A., Llanbedr cynweinidog yr Eglwysi. Ymgasglodd y bobl o bedwar pwynt y Nef i'r capel bach ar y bryn yn brydlon. Daethant yno i ddisgwyl a dymuno nawdd Duw ar yr uniad. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Parchg. D. Harford Evans, Burry Port un o blant Ffaldybrenin, a thraddododd neges amserol iawn o Salm 68:28, – "Gorchmynais i ti nerth". Pwysleisiodd ar yr angenrheidrwydd i bob aelod dderbyn o'r nerth ysbrydol sydd yn hanfodol i gysur a llwyddiant y wir Eglwys.

Am chwech o'r gloch yn absenoldeb y Prif Athro T. Lewis, M.A., Aberhonddu cafwyd pregeth ar "Natur Eglwys" gan y Parchg. Arthur Jones, B.A., Pantteg Ystalyfera i gynulleidfa o wrandawyr astud. Eglurodd mewn modd cryf a sylweddol mai Corff a Phen yr Eglwys ydyw Crist, a disgwylir deyrngarwch pob aelod yn yr Eglwys. Amod pob llwyddiant ydyw hyn . . . Diddorol i ddieithriaid oedd gweled yr "hen godwr canu" (Thomas Thomas, Maesteile) yn taro pob ton ai fforc, gan nad oedd yno offeryn, ac yn ei law gannwyll oleu i'w gyfarwyddo yn bennaf gyda'r seiniau rhag iddo lithro a chamarwain y gynulleidfa. Dwy oedfa odidog oedd y rhai hyn.[14]

Drannoeth yn Ffaldybrenin, o dan lywyddiaeth y Parchedig D. Harford Evans, cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y

Ffaldybrenin ac Esgerdawe.

Cynhelir

# Cyfarfodydd Ordeinio

# Mr. Giraldus Jones

Ystalfera,

(o Goleg Goffa, Aberhonddu)

Yn Weinidog i'r Eglwysi uchod,

## Dyddiau Mercher a Iau, Hydref 24 a 25, 1928.

Croeso cynnes i bawb.

D. R. Evans a'i Gyf., Llanbedr.

Parchedig T. Eirug Davies, B.A., Llambed. Yn dilyn, rhoddwyd ychydig o hanes cynweinidogion y ddwy eglwys, yn ogystal â hanes yr alwad hon, gan Thomas Davies, ysgrifennydd Ffaldybrenin. Cadarnhawyd y cyfan mewn modd gwreiddiol dros ben gan Abel Thomas, ysgrifennydd Esgairdawe. Cyflwynodd y Prifathro Thomas Lewis, M.A., B.D., Coleg Aberhonddu y myfyriwr ifanc fel un teilwng i fugeilio ac addysgu ei braidd yn y ddwy eglwys. Roedd nifer fawr o weinidogion o bob enwad yn bresennol ynghyd â thorf o aelodau a chyfeillion Eglwys Pant-teg, Ystalyfera, y rhai a fu'n dystion i ymateb Giraldus Jones i ofyniadau'r Llywydd. Cododd y gynulleidfa i ddangos eu cefnogaeth unfrydol. Wrth roi Siars i'r gweinidog, nododd y Parchedig Ben Davies, ei dad yn y ffydd, dri phwynt yn arbennig, – 'Porthi'r Ŵyn, Bugeilio a Phregethu'. Anogodd ef i fynd ati i weithio yn ddiymdroi. Croesawyd Giraldus i'r Cylch gan y Parchedig Hedydd Jones, Pumsaint ac i'r Cyfundeb gan y Parchedig Tom Davies, Horeb, Llandysul.

Llywyddwyd oedfa'r hwyr gan y gweinidog newydd, gyda'r rhannau arweiniol yng ngofal un o blant Ffaldybrenin, Mr. D. Edmund Williams, B.A., myfyriwr yn y Coleg Coffa a gweinidog Caersalem, Pontyberem yn ddiweddarach. Prif bwyntiau'r cynweinidog, y Parchedig David Williams, wrth roi Siars i'r eglwysi, oedd, ar iddynt dderbyn y gweinidog ifanc fel 'Athro, Cyfaill, Bugail a Phregethwr'. I orffen y gyfres, pregethwyd gan y Prifathro Thomas Lewis ar 'Dduw yn cymodi'r byd ag Ef ei Hun yn ei Fab'. Offrymwyd y Weddi Apostolaidd gan y Parchedig Giraldus Jones. Tystiai'r lliaws a fu'n bresennol na chafwyd gwell Cyfarfodydd Ordeinio yn unman erioed.

Arwyddwyd Tystysgrif i brofi fod Giraldus Jones wedi'i dderbyn i'r weinidogaeth gan ddau ar bymtheg o weinidogion. Diddorol yw sylwi ar y gwahanol lofnodion a sylweddoli'r ymdrech a wneid yn y cyfnod hwnnw i gyrraedd mannau anghysbell ar gyfer achlysuron arbennig. Cofiwn mai oes y cerdded ydoedd yn bennaf, ond gellid cael bws neu drên i deithio'r rhan helaethaf o'r daith.

Daethpwyd o hyd i'r Dystysgrif wreiddiol a gwelir copi ohoni drosodd.

Yn yr ofalaeth hon, felly, y bwriodd Giraldus Jones ei brentisiaeth fel gweinidog.

> Nid oedd heb ysbrydiaeth yn yr ardal amaethyddol hon, oblegid oddi yma y daeth Timothy Richard y cenhadwr enwog; ac yma y treuliodd yr hynod Rhys Kilsby Jones flynyddoedd ei ieuenctid.[15]

Ni fu'n hir cyn ymsefydlu'n ddedwydd a derbyniol yn y fro, er ei bod yn hollol wahanol i ardal weithfaol ei febyd. Dichon i'r profiadau a gafodd wrth gymdeithasu â'i gydweithwyr yng nghrombil y ddaear fod yn gyfrwng i'w baratoi ar gyfer bugeilio'i braidd. Gwyddai sut i drin pobl. Roedd hyn yn haws iddo na thrin y garreg galetaf yn y lofa, er mor anhydrin y gall ambell berson fod. Bwriodd ei wreiddiau mor ddwfn ac eang fel na fedrai ymadael â'r fro. Yma yr arhosodd, yn yr un ofalaeth, am hanner canrif. 'Da was, da a ffyddlon'. Nid gŵr a flinai'n hawdd ar ei bobl ydoedd. Dewisodd aros yn yr un maes, er iddo gael cyfle fwy nag unwaith i'w newid. Bu dau o'i gynweinidogion, sef y Parchedigion Rhys Jones a Henry Jones yn gweinidogaethu yma am ddeugain mlynedd. Ond, fe dorrodd Giraldus Jones y record honno. Cyfeiriodd Kilsby Jones at weinidog a dreuliodd hanner canrif yn y weinidogaeth fel 'Patriarch – fachgen', ond beth a ddywedir am un a fu yn yr un ofalaeth am gyhyd o amser?

Mae'n amhosibl rhoi cyfrif o'r gwasanaeth didwyll a ffyddlon a roddodd yn y ddwy eglwys, ond teg yw cyfeirio at rai pethau pwysig a diddorol. Pregethai 'n rymus ac argyhoeddiadol, heb ofni gwg neb. Mae'n syndod iddo fedru cael testun gwahanol i bregethu arno am gyfnod mor faith. Eithriad fyddai cael pregeth ar yr un testun ag o'r blaen. Pe digwyddai hynny, byddai'r bregeth ar ei newydd wedd. Ni chafodd neb gyfle i gysgu. Gorffennai'r bregeth yn ei blas. Nid oedd angen edrych ar y cloc.

Dyma enghreifftiau o rai testunau i bregethau o'i eiddo:

| | | |
|---|---|---|
| Diarhebion, 22 : 6 | — | Hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd; a phan heneiddia nid ymedy â hi. |
| Rhufeiniaid, 12 : 17 | — | Darperwch bethau gonest yng ngolwg pob dyn. |
| 2, Timotheus, 3 : 14 | — | Eithr aros di yn y pethau a ddysgaist ac a ymddiriedwyd i ti amdanynt, ac i ti er yn fachgen wybod yr ysgrythyr lân. |
| 2 Timotheus, 4 : 10 | — | Canys Demas a'm gadawodd gan |